NFU CYMRU

# Tyfu Gyda'n Gilydd

## Strategaeth ar gyfer cynyddu gorchudd coed yng Nghymru mewn ffordd gynaliadwy



NFU CYMRU

NFU Cymru TreesAndWoodland Report Welsh AW.indd 1 10/09/2021 17:51

# Cyflwyniad

Newid yn yr hinsawdd yw'r her amgylcheddol fwyaf sydd yn wynebu'r byd, gyda nifer o wledydd nawr yn profi eithafion tywydd gwbl digynsail a chynyddol aml. Mae cynyddu'r gorchudd o goed yn cael ei hyrwyddo yn eang fel strategaeth ar gyfer lleddfu ac addasu i newid yn yr hinsawdd. Mae'r papur hwn yn amlinellu safbwynt NFU Cymru ar gynyddu coetiroedd ac yn cynnwys ystyriaethau allweddol, rhwystrau a chyfleoedd os ydym yn mynd i gyflawni'r her o gyrraedd y targedau plannu coed tra'n parhau i gynhyrchu bwyd fforddiadwy o ansawdd uchel, a chymunedau gwledig ffyniannus.

Mae gan NFU Cymru weledigaeth o sector amaethyddol gynhyrchiol, proffidiol a blaengar sydd yn cynhyrchu bwyd hinsawdd-gyfeillgar byd-enwog mewn amgylchedd a thirwedd sydd yn darparu cynefinoedd i'n natur ffynnu. Bwyd ac amaeth Cymreig yn darparu buddion economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol ar gyfer holl drigolion Cymru tra'n cwrdd a'n uchelgais o amaeth sero net erbyn 2040.



# Uchelgais gorchudd coed yng Nghymru

Mae'r ardal o dir a orchuddir gan goed a choetiroedd yng Nghymru wedi treblu ers y 19eg ganrif i 306,000 hectar. Mae chwarter o'r holl goetir wedi ei leoli ar ffermydd Cymru. Amcangyfrifir bod gan Gymru hefyd 106.000km o wrychoedd, a'r gyfran fwyaf o goetiroedd hynafol yn y DU (fel canran o'r arwynebedd cyfan), sef 4.6 y cant.

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'argyfwng hinsawdd' yn arwydd o uchelgais gynyddol dros weithredu yn yr hinsawdd. Nod Strategaeth Coetiroedd Cymru yw cynyddu plannu coed i o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn o 2020. Mae adroddiad 'Path to Net Zero' Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (UKCCC) yn argymell cynyddu gorchudd coetir yng Nghymru o 15% i 24% gan ofyn am 180,000 hectar o blannu newydd erbyn 2050 - 43,000 hectar erbyn 2030. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Coedwig Genedlaethol o ogledd Cymru i'r de.

I osod targedau y UKCCC yn eu cyd-destun, maint gyfartalog fferm yng Nghymru yw 48 hectar, felly byddai 180,000 hectar ychwanegol yn mynnu ar goedwigo 3,750 fferm yn gyfan-gwbl – bron at chwarter o ffermydd teuluol Cymru.

Fodd bynnag, nid yw'r gyfradd o blannu newydd dros y blynyddoedd diwethaf yn adlewyrchu maint yr uchelgais hwn, gyda dim ond 80 hectar o goed wedi eu plannu yn 2019 – gan adlewyrchu, yn rhannol, lefel yr adnoddau a ymrwymwyd i'r dasg gan Llywodraeth Cymru, a'r fiwrocratiaeth sydd yn gysylltiedig â'r cynllun creu coetiroedd.

> MAINT GYFARTALOG FFERM YNG NGHYMRU YW 48 HECTAR, FELLY BYDDAI 180,000 HECTAR YCHWANEGOL YN MYNNU AR GOEDWIGO 3,750 FFERM YN GYFAN-GWBL – BRON AT CHWARTER O FFERMYDD TEULUOL CYMRU.

# Fferfmio yng Nghymru



**Rydym wedi gosod nod uchelgeisiol o gyrraedd sero net o safbwynt allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG/GHG) mewn amaeth erbyn 2040.**

Mae ffermwyr yn rheoli dros 80% o Gymru, gan chwarae rôl anhepgor wrth ofalu am ein tirwedd Cymreig a gosod sylfaen i'r sector bwyd a diod yng Nghymru, sydd yn werth £7.5 biliwn ac yn cyflogi dros chwarter miliwn o bobl. Mae ffermydd teuluol yn darparu ystod pwysig o wasanaethau i'n cymdeithas. Mae hyn yn cynnwys rheolaeth o'r amgylchfyd naturiol sydd yn cefnogi amrywiaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd, ynghyd â bod yn sylfaen i'n cymunedau gwledig, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol - gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg o unrhyw sector (43 y cant).

Mae Cymru yn addas iawn ar gyfer cynhyrchu bwyd, ac mewn hinsawdd sydd yn newid, bydd yn wlad sy'n cael ei ffafrio'n naturiol yn fwyfwy ar gyfer amaeth sydd yn gyfeillgar i'r hinsawdd. Systemau cynhyrchu o laswellt sydd yma yn bennaf, gan gynhyrchu proteinau o ansawdd uchel - cig coch a llaeth. Yng nghyd-destun yr heriau a ragwelir i'n systemau bwyd byd-eang, mae'n ddyletswydd ar Gymru fel cenedl sy'n fydol gyfrifol i barhau i gyfrannu tuag at ddiogelwch bwyd byd-eang. Mae cynhyrchu bwyd domestig yng Nghymru sydd yn wydn ac yn effeithlon o ran adnoddau yn chwarae rhan bwysig wrth gyfyngu ein hôl troed ecolegol byd-eang a'n dadleoliad o effaith amgylcheddol ein cyflenwad bwyd i wledydd dramor - lle gall safonau amgylcheddol, lles anifeiliaid a chymdeithasol fod yn is.

Mae NFU Cymru yn cydnabod bod gan amaeth rhan allweddol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan fod yn unigryw o fod yn ffynhonnell allyriadau ac hefyd yn ddalfan. Rydym wedi gosod nod uchelgeisiol o gyrraedd sero net o safbwynt allyriadau nwyon tŷ gwydr (NTG/GHG) mewn amaeth erbyn 2040 gan ganolbwyntio ar gynyddu effeithlonrwydd cynhyrchiol amaeth; gwella rheolaeth tir er mwyn dal mwy o garbon; a chynyddu ynni adnewyddadwy a'r bio-economi ehangach.

Eisoes yn gyfrifol am adnodd carbon tra phwysig yn ein priddoedd, glaswelltiroedd, tirweddau coediog a chynefinoedd lled-naturiol, fel ffermwyr rydym yn cydnabod bod yna fwy y medrwn wneud, a'r rôl bwysig sydd gan goed mewn gwrychoedd, coetiroedd a'r tirwedd ehangach i'w chwarae ar ffermydd yn y blynyddoedd o'n blaenau wrth gyflawni sero net a darparu ystod ehangach o fuddion i fusnesau ffermydd, cymdeithas a'r amgylchedd.



# Ystyriaethau allweddol

Mae'n amlwg bod yna bwysau lluosog a chynyddol ar ddefnydd tir yng Nghymru. Mae tir yng Nghymru yn adnodd cyfyngedig, ac os ydym yn mynd i gyflawni nodau hinsawdd mewn modd sydd yn deg a chynaliadwy, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr effeithiau negyddol ar amaeth a'n cymunedau gwledig gyda'r isaf posib. Yn ymarferol, golyga hyn symud y tu hwnt i'r dewis deuaidd rhwng amaeth a choedwigaeth.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2016) sydd yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, mae'n rhaid i bolisïau sydd yn darparu targedau plannu coed:

## Ddiogelu ein cymunedau gwledig

Mae'r UKCCC yn cydnabod bod yn rhaid i gostau'r newid i sero net cael eu rhannu yn deg dros ein cymdeithas gyfan. Parthed cynyddu'r gorchudd coed, nid yw'n rhesymol i Lywodraeth Cymru osod targedau ar gyfer plannu coed neu Choedwig Genedlaethol heb ddeall y costau i amaeth a'r sector bwyd a diod, sydd yn ganolog i economi Cymru a'n cymunedau gwledig.

Mae buddsoddwyr allanol mewn coedwigaeth masnachol yn barod yn prynu ffermydd yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC/NRW) wedi mabwysiadu polisi o gaffael tir ar gyfer ei blannu a deallwn bod plannu ar dir comin hefyd fater sydd yn derbyn ystyriaeth. Heb fynediad i'r enillion economaidd, mae gan effaith cronnol y newidiadau hyn botensial i niweidio economïau gwledig bregus wrth i'r buddion economaidd symud i ffwrdd o'r bobl sydd wedi eu seilio yn dynn yn eu cymunedau gwledig, a thuag at eraill â chanddynt dim ond y diddordeb lleiaf, neu dim diddordeb o gwbl mewn lles ardaloedd lleol; gan hefyd leihau'r cyfleoedd i genedlaethau'r dyfodol gael mynediad i amaeth a thai lleol.

Mae gan bolisïau sydd yn gyrru plannu coed, yn enwedig lle mae'r nawdd ariannol yn uwch na'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer tir amaethyddol, botensial i effeithio ar denantiaid sydd yn ffermio, sector sydd yn nodedig am denantiaethau tymor-byr – yn aml yn llai na phum mlynedd. Mae'r risg o ddiddymu tenantiaethau, neu o beidio eu hadnewyddu gan landlordiaid er mwyn iddynt balu ymlaen gyda phlannu coed yn sylweddol ac yn peri gofid dwys.

Mae'n rhaid i'r newid i sero net fod yn un cyfiawn, ac ni ddylai'r baich o ddatgarboneiddio syrthio mewn modd anghyfartal ar gymunedau gwledig Cymru. Er mwyn sicrhau hyn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddeall yr effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor o bolisïau plannu coed trwy ddatblygu fframwaith penderfyniadol sydd yn darparu dull cytbwys. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i gymunedau gwledig a'u diogelu ar gyfer y dyfodol.

## Diogelu'r cyflenwad bwyd

Yn unol â Chytundeb Hinsawdd Paris sydd yn cydnabod pwysigrwydd diogelu'r cyflenwad bwyd, creda NFU Cymru na ddylai'r llwybr i allyriadau sero net ar gyfer amaeth ddod ar draul cynhyrchu bwyd yng Nghymru, gan ddadleoli ein hallyriadau NTG i rhywle arall. Ni fyddwn yn atal newid yn yr hinsawdd gan gyfyngu cynhyrchu bwyd yng Nghymru ac allforio'r dasg i wledydd eraill y byd.

Mae'r pandemig COVID-19 hefyd wedi tanlinellu'r ffaith bod diogelu'r cyflenwad bwyd a sicrhau mynediad i gyflenwad sefydlog o fwyd cartref, fforddiadwy, o ansawdd uchel ar gyfer ein holl ddinasyddion yn rhywbeth sydd er lles y genedl gyfan.

Ym marn NFU Cymru, mae ffermwyr yn y sefyllfa orau i reoli tir ar gyfer ystod o allbynnau economaidd ac amgylcheddol, ac rydym o blaid dulliau sydd yn integreiddio coetiroedd mewn i systemau amaethyddol gan greu buddion lluosog heb danseilio hyfywedd ffermydd na chynhyrchu bwyd.

Creda NFU Cymru bod yn rhaid creu mecanweithiau yn y Ddeddf Amaeth (Cymru) sydd ar ddod i sicrhau bod diogelwch ein cyflenwad bwyd a'n gallu cynhyrchu yn cael eu monitro, eu cynnal a'u gwella, ynghyd â thargedau strategol eraill megis newid yn yr hinsawdd.

**MAE FFERMWYR YN Y SEFYLLFA ORAU I REOLI TIR AR GYFER YSTOD O ALLBYNNAU ECONOMAIDD AC AMGYLCHEDDOL.**



NFU Cymru TreesAndWoodland Report Welsh AW.indd 4 10/09/2021 17:52

# Rhwystrau allweddol



Mae'r targedau ar gyfer cynyddu'r gorchudd coed yn hynod o uchelgeisiol. Os ydym yn mynd i gyflawni'r targed tymor-byr o 43,000 hectar erbyn 2030 yna mae angen datblygu dealltwriaeth gyfun o'r rhwystrau rhag plannu coed ar fyrder.

## Economeg

Mae ffermio yn fusnes sydd yn ddibynnol ar werthu ystod o nwyddau amaethyddol wedi eu cynhyrchu o'r tir er mwyn creu'r incwm angenrheidiol i gynnal bywoliaethau a buddsoddi ar gyfer y dyfodol. Does fawr o ffermwyr sydd yn medru aros i gnwd o bren aeddfedu er mwyn derbyn incwm; na chwaith ydy hyn yn bosib ar gyfer y llu o fusnesau lleol sydd yn ddibynnol ar ffermwyr am eu bywoliaeth.

O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd ffermwyr yn medru fforddio plannu coed ar raddfa fawr heb fecanweithiau priodol i gwrdd â chostau plannu a rheolaeth barhaus, a bod cefnogaeth ariannol hirdymor yn cael ei ddarparu i sicrhau incwm rheolaidd tra bod y coed yn tyfu. Tanseilir y rhesymeg economaidd dros blannu coed yn bellach pan nad ydyw'n seiliedig ar blannu coed conwydd masnachol ac nid oes yna gnwd i'w fedi yn y dyfodol. Mae plannu rhywogaethau brodorol yn cynnig buddion ehangach dros natur ac yn integreiddio'n dda mewn i systemau amaethyddol, felly mae angen ei wobrwyo'n addas.

## Galluogwyr polisi

Mae mesurau i gefnogi plannu coetiroedd a ddarperir drwy'r rhaglen datblygu gwledig gyfredol (Glastir) yn gymhleth a biwrocrataidd. Nid yw'r adnoddau a neilltuwyd ar gyfer y cynllun yn gweddu maint uchelgais Llywodraeth Cymru. Mae taliadau ar gyfer plannu a rheolaeth barhaus y coed yn seiliedig ar gyfrifiadau o gostau a ysgwyddir ac incwm a gollir, ac mae'r cyfraddau talu wedi methu dal i fyny â'r chwyddiant mewn costau, megis deunyddiau ffensio, costau llafur ayyb.

## Tirddaliadaeth

Mae bron at 30% o dir amaethyddol Cymru dan denantiaeth, ac ar y cyfan nid yw ffermwyr tenant yn medru plannu coed o ganlyniad i gyfyngiadau yn eu cytundebau tenantiaeth. Mae angen diwygio'r gyfundrefn tenantiaeth er mwyn galluogi gwell hyblygrwydd. Mae'n rhaid i bolisïau sydd yn darparu targedau plannu coed hefyd ddiogelu ffermwyr dan denantiaeth. Mae hefyd angen gwarchod hawliau pori ar dir comin.

## Parhauster

Mae parhauster plannu coetiroedd newydd yn medru bod yn rwystr i ymrwymiad gan y gymuned amaethyddol. Tra bod ffermwyr, gyda chefnogaeth priodol, yn barod i blannu coed ar y tir sydd yn eu tyb hwythau o ansawdd isel, gall y gofyniad sydd yn atal dychwelyd ardaloedd o goetir i amaeth ar ddiwedd cyfnod fod yn rhwystr i blannu ar raddfa eang.

Nid yw ffermwyr eisiau cyfyngu cyfleoedd rheoli tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mewn cyfnod pan mae angen i fusnesau fferm addasu ac adeiladu hydwythder. Mae angen mynd i'r afael ag hyn er mwyn galluogi i rai mathau o goed ar safleoedd addas gael eu trin mewn modd tebyg i gnwd arferol, gan weithio yn gylchredol ar diroedd amaethyddol. Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod parhauster plannu coed yn effeithio ar werth masnachol y tir ac yn lleihau gwerth yr ased.

## Risg

Nid yw plannu coed yn ddigymhlethdod – does dim sicrwydd y bydd coed yn sefydlu'n llwyddiannus. Mae yna ystod o broblemau sydd yn medru effeithio ar goed sydd newydd eu plannu ac wrth iddynt dyfu, gan gynnwys pla a thywydd eithafol megis cyfnodau sych estynedig – rhywbeth a ddisgwylir yn fwy aml mewn hinsawdd sydd yn newid. Mae hyn yn golygu bod perygl risgiau ac ymrwymiadau costus i ffermwyr sydd yn ddarostyngedig i gytundebau gyda'r llywodraeth neu mewn marchnadoedd carbon. Mae angen rhannu baich risg yn deg ym mecanweithiau'r dyfodol ar gyfer creu coetiroedd.

## Haint

Mae heintiau coed megis gwywiad yr onnen a Phytophthora Ramorum yng nghoed larwydd yn dinistrio cefn gwlad Cymru, a byddant yn amlwg yn arwain at golled sylweddol o'r gorchudd coed yng Nghymru. Mae angen gwell cefnogaeth gyda'r gost o dorri ac amnewid coed sydd wedi'u heintio. Mae pryder dros heintiau newydd sydd yn ymledu yn tanseilio hyder ac yn rwystr ychwanegol i blannu coed. Wrth symud ymlaen, mae angen i ddyluniad y plannu gynnwys cymysgedd addas o rywogaethau a chanolbwyntio ar leihau'r risg biolegol a hinsawdd.



# Cyfleoedd allweddol

## Ffermwyr yw'r datrysiad

Gyda dros 80% o dir Cymru dan reolaeth ffermwyr, creda NFU Cymru bod ffermio yn cynnig y cyfle gorau, o safbwynt faint o dir sydd ar gael, ar gyfer plannu coed newydd.

Mae NFU Cymru yn cefnogi mesurau sydd yn galluogi a gwobrwyo ffermwyr am blannu coedlannau ychwanegol, a credwn bod yn rhaid gwireddu'r targedau ar gyfer plannu coed newydd gan integreiddio coed mewn i systemau amaethyddol yn hytrach na'u disodli. Dangosodd gwaith ymchwil diweddar os defnyddiwyd dim ond 3.42% o dir amaethyddol cyfredol Cymru ar gyfer sefydlu coedlannau newydd (h.y. 1.73 hectar ar ddaliad maint cyfartaledd Cymru), byddem yn cwrdd â tharged creu coetiroedd is Llywodraeth Cymru o 2,000 ha y flwyddyn – 60,000 ha i gyd erbyn 2050.

Gwelwn er y gallai fod yna wrthwynebiad cryf gan ffermwyr i blannu coed ar eu tiroedd gorau a bod colli ffermydd cyfan i goedwigaeth yn fater sydd yn peri cynnwrf, mae llawer o ffermwyr yn frwdfrydig dros gynyddu gorchudd coed ar raddfa briodol ar diroedd y maent hwythau yn dynodi yn llai cynhyrchiol.

Dylai cynlluniau'r dyfodol ar gyfer creu coetiroedd wobrwyo ffermwyr i ddarparu ystod eang o fuddion cyhoeddus o dir sydd yn parhau i gael ei ddefnyddio yn gynhyrchiol, gan alluogi ffermwyr i:

- Blannu gwrychoedd, lleiniau lloches, coridorau glan nentydd, rhigolau a chorneli caeau gyda chymysgedd o goed a phrysgoed brodorol a rhywogaethau conwydd.
- Sefydlu plannu coed ar raddfa caeau ar dir sydd o werth amaethyddol a chynefin isel.
- Reoli coetiroedd, gwrychoedd a chynefinoedd cysylltiedig sydd yn bodoli eisoes ar ffermydd er mwyn gwella eu cyflwr a darparu enillion economaidd.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd wobrwyo dalfeydd carbon pwysig eraill megis priddoedd, mawndiroedd a glaswelltiroedd. Gall reolaeth briodol o laswelltiroedd wella cynhyrchiant ar yr arwyneb ac arwain at gynnydd ym mio-màs y gwreiddiau, gan felly gynyddu faint o garbon a ddelir dan y ddaear.

## Y goeden gywir yn y man cywir

Mae NFU Cymru yn cefnogi'r egwyddor polisi o'r 'goeden gywir yn y man cywir', boed yn gyfredol neu mewn hinsawdd sydd yn newid. Wrth ystyried plannu coed addas, bydd angen i ffermwyr ystyried ystod eang o rinweddau er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr busnes dros y tymor-byr a'r hirdymor, megis diben y plannu, y raddfa, lleoliad, amgylchiadau lleol gan gynnwys yr hinsawdd a'r math o bridd, ynghyd â gofynion y farchnad.

Mae angen fframwaith penderfyniadol er mwyn llywio penderfyniadau plannu, yn enwedig ar gyfer planhigfeydd o raddfa eang, er mwyn sicrhau bod yr ardal yn addas ar gyfer coed, gan gydnabod pwysigrwydd cynhyrchu bwyd nawr ac yn y dyfodol, ynghyd â lles cymunedau gwledig. Dylai'r fframwaith hwn hefyd sicrhau nad ydym yn ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol megis plannu ar fawndiroedd a chynefinoedd eraill ynghyd ag asideiddio ein afonydd.

**Mae NFU Cymru yn cefnogi'r egwyddor polisi o'r 'goeden gywir yn y man cywir', boed yn gyfredol neu mewn hinsawdd sydd yn newid.**

## Plannu am fuddion lluosog

Mae NFU Cymru yn annog Llywodraeth Cymru i gydnabod gwerth coed yn y tirwedd ehangach sydd yn medru darparu buddion lluosog gan gynnwys ymneilltuo carbon, bioamrywiaeth, cymeriad y tirwedd, lleddfu llifogydd, tra hefyd yn cyfranni tuag at amcanion cynhyrchu bwyd. Mae coed a gwrychoedd yn cynnig buddion lu i fusnesau fferm, gan gynnwys gweithredu fel ffiniau/terfynau, yn rwystrau i anifeiliaid fferm, bioddiogelwch, a chysgod a lloches ar gyfer anifeiliaid. Gallai buddion eraill hefyd gynnwys cynhyrchu ffrwythau neu ffynhonellau incwm amgen megis coedlannau masnachol. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rhesymeg economaidd fodoli, gan gydnabod methiant y farchnad parthed amrediad o nwyddau cyhoeddus megis bioamrywiaeth.

## Amaeth-goedwigaeth

Yn yr ystyr ehangach, mae amaeth-goedwigaeth yn cynnwys gwrychoedd hyd at coed unigol a grwpiau bychain o goed ar ffermydd sydd yn gweithio gyda busnes y fferm/cynhyrchu bwyd. Mae yna ychydig o wrthwynebiad i'r term ymhlith y gymuned amaethyddol. Mae hyn yn rhannol o ganlyniad i'r diffyg diffiniad penodol a'r dryswch cyffredinol am yr hyn mae'r term yn ei olygu.

Fodd bynnag, gyda'r mesurau polisi a'r cymhelliannau ariannol cywir yn eu lle (fel a ddisgrifir uchod) mae sefydliad a rheolaeth coed mewn gwrychoedd ac amaeth-goedwigaeth ehangach yn cynnig potensial sylweddol i gynyddu'r gorchudd coed ar ffermydd Cymru a lleddfu newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn cynnig buddion i systemau ffermio megis cynnig cysgod a lloches i anifeiliaid fferm mewn hinsawdd newidiol.

## Polisïau'r dyfodol

Dylai polisïau'r dyfodol hwyluso plannu coed ychwanegol ar ffermydd Cymru trwy gynllun sydd wedi derbyn yr adnoddau priodol, sydd yn syml i geisio amdano ac yn gwobrwyo plannu gwrychoedd newydd, coridorau glan nentydd, lleiniau lloches, corneli caeau, rhigolau a pharseli caeau. Dylid hefyd annog rheolaeth o goetiroedd a gwrychoedd sydd yn bodoli eisoes ar ffermydd ar gyfer y carbon a ddelir ynddynt a'r buddion bioamrywiaeth maent yn ddarparu. Mae'r nodweddion hyn eisoes wedi eu mapio a'u darparu i Daliadau Gwledig Cymru yn flynyddol – dull y credwn ninnau dylid esblygu er mwyn pennu'r nwyddau cyhoeddus a ddarperir ar lefel fferm yn y dyfodol.

Ni ddylai'r cynllun fod yn fecanwaith i yrru newid mewn defnydd tir.

NFU Cymru TreesAndWoodland Report Welsh AW.indd 6 10/09/2021 17:52

## Ffrydiau ariannu amgen

Dylai fod cysylltiad clir rhwng taliadau am nwyddau cyhoeddus a phris cadarn ar garbon sydd yn talu am y storfa garbon a gyflawnir. Dylid hefyd hybu'r datblygiad o ffrydiau ariannu amgen.

Rydym angen fframwaith monitro ac adrodd syml a chadarn ar gyfer plannu coed ar bob graddfa er mwyn darparu hyder a sicrwydd i ffermwyr a buddsoddwyr. Mae'n rhaid i gontractau fod yn glir a thryloyw ac iddynt adlewyrchu'n deg hirhoedledd yr ymrwymiad,ac mae NFU Cymru yn credu bod yna werth i gyfuno arian cyhoeddus a phreifat. Dylai coetiroedd sydd yn bodoli eisoes fod yn gymwys i'w cynnwys ym marchnadoedd carbon y dyfodol.

Mae yna gwestiwn moesol yn perthyn i roddi tir yng Nghymru i'w blannu er mwyn cwrdd ag amcanion gwrthbwyso carbon eraill, er enghraifft, cwmnïau mawrion. Er iddo gyfranni tuag at targedau gorchudd coed Cymru, mae'n anochel y byddai'r dull hwn yn creu canlyniadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol negyddol i gymunedau gwledig yng Nghymru, tra'n caniatáu i'r cwmnïau yma barhau gyda'u 'busnes fel arfer.' Gallai masnachu carbon gyda sectorau eraill hefyd fod yn rhwystr i ffermydd Cymru gyflawni eu targedau sero net ei hunain.

## Cyflenwad coed ifanc domestig

Mae NFU Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi'r cyflenwad o goed ifanc cartref fydd yn chwarae rhan bwysig wrth atal mewnforio plâu a heintiau dinistriol a darparu coed i'w plannu sydd yn addas ar gyfer yr amgylchedd leol, ynghyd â darparu buddion i economi Cymru.

## Ymchwil a datblygu

Mae angen i benderfyniadau ar blannu coed gael eu hategu gan dystiolaeth wyddonol cadarn, ac mae angen ymchwil a datblygiad pellach yn y meysydd canlynol:

- Rôl coedwigaeth a choetiroedd fferm mewn ymneilltuo carbon gan gynnwys lefelau allyriadau ac ymneilltuo gwahanol fathau o'r rhain dros eu hoes – sefydlu, rheolaeth a chynaeafu sydd yn achosi gollyngiad o nwyon tŷ gwydr.
- Yr amryw ffactorau fydd yn effeithio ar benderfyniadau i blannu yn y dyfodol, megis newid yn yr hinsawdd a iechyd planhigion.
- Y potensial i ymneilltuo carbon dros gwahanol fathau o ddefnydd tir. Mi fydd yn hanfodol boddhau'r amrywiadau rhanbarthol mewn arferion ffermio trwy fod yn hyblyg yn ein dulliau o storio carbon, a bod ffermwyr yn cael mynediad i'r wybodaeth sydd angen arnynt i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer eu busnesau.
- Ymchwil wedi ei leoli yng Nghymru mewn i fuddion ac arferion rheoli gorau amaeth-goedwigaeth.
- Cyfleoedd i fridio planhigion er mwyn cynyddu ymwrthedd yn erbyn plâu ac heintiau.
- Y potensial i leihau ôl troed amgylcheddol y plastigion sydd yn perthyn i blannu coed.



# Gofynion allweddol



Mae ffermwyr yn barod i chwarae eu rhan ac yn uchelgeisiol dros weithio tuag at y nod o amaeth sero net erbyn 2040 a chynhyrchu'r bwyd mwyaf hinsawdd-gyfeillgar yn y byd. Ond, mae'n rhaid i'r trawsnewid at sero net a'r targedau ar gyfer plannu coed eu gweithredu mewn modd sydd yn diogelu'r buddion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol niferus a ddarperir gan amaeth yng Nghymru. Mae NFU Cymru yn galw am:

- Sefydlu Comisiwn Trawsnewid Cyfiawn er mwyn sicrhau nad yw'r baich o ddatgarboneiddio yn syrthio yn anghyfartal ar gymunedau gwledig.
- Fframwaith penderfyniadol i lywio penderfyniadau ar newid defnydd tir er mwyn asesu'r effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol hirdymor yn iawn.
- Datblygu mecanweithiau yn y Ddeddf Amaeth (Cymru) i sicrhau bod diogelwch ein cyflenwad bwyd a'n gallu cynhyrchu yn cael eu monitro, eu cynnal au cyfoethogi ynghyd â thargedau strategol eraill.
- Mecanweithiau addas i ddarparu cefnogaeth ariannol hirdymor i ffermwyr sydd yn symud y tu hwnt i gyfrifiadau o gostau a ysgwyddir ac incwm a gollir gan alluogi i incwm rheolaidd ddeillio o goetiroedd ar ffermydd.
- Diwygio'r system denantiaeth i alluogi tenantiaid i dderbyn budd o blannu coed ar raddfa addas, a diogelwch i denantiaid a chominwyr fel nad ydynt yn cael eu symud ymaith o'r tir.
- Hyblygrwydd fel nad oes angen i diroedd a blennir â choed barhau felly am byth.
- Mecanweithiau sydd yn cydnabod y risgiau sydd yn gysylltiedig â phlannu newydd a dylunio plannu sydd yn lleihau'r risgiau biolegol ac o'r hinsawdd.
- Cynlluniau'r dyfodol yn derbyn adnoddau teilwng ac yn hawdd i geisio amdanynt er mwyn gwobrwyo ffermwyr yn deg i gynyddu gorchudd coed a gwrychoedd ffermydd Cymru ar ystod o raddfeydd, gan hefyd annog arferion rheoli sydd yn gwneud y gorau o botensial storio carbon priddoedd, mawndiroedd, glaswelltiroedd ynghyd â choed sydd yn bodoli eisoes.
- Cysylltu taliadau am nwyddau cyhoeddus i bris carbon cadarn gan wobrwyo storio carbon a gyflawnir mewn coetiroedd newydd a choetiroedd sydd yn bodoli eisoes ynghyd â'r potensial i gyfuno nawdd cyhoeddus a phreifat.
- Cefnogaeth i ddatblygu'n bellach y cyflenwad o goed ifanc sydd wedi eu tyfu yng Nghymru.
- Penderfyniadau dros blannu coed sydd yn seiliedig ar dystiolaeth wyddonol gadarn a buddsoddi mewn ymchwil a datblygiad.

# Tanysgrifiwch i ymrwymiad #TyfuGydanGilydd NFU Cymru

Creda NFU Cymru bod amaeth mewn sefyllfa unigryw i fod yn rhan o ddatrysiad newid yn yr hinsawdd ac y dylid gwrdd â nodau hinsawdd mewn modd sydd yn gynaliadwy ac yn deg. Ni ddylid gyflawni targedau plannu coed trwy ddewis deuaidd o ffermio neu choedwigaeth, yn hytrach na hyn dylai targedau uchelgeisiol Cymru cael eu gweithredu mewn modd sydd yn diogelu'r buddion economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol niferus y mae amaeth yng Nghymru yn eu darparu.

Os ydych chi'n cytuno ac yn awyddus i weld mwy o goed yn dod yn rhan o systemau ffermio yn hytrach na'u disodli, tanysgrifiwch i'n ymrwymiad **#TyfuGydanGilydd** lle mae bwyd, ffermio, coed, natur, tirweddau a'n cymunedau gwledig oll yn ffynnu.

#NiYwFfermioCymru

**#TyfuGydanGilydd**

Published by
**NFU Cymru, Agriculture House, Royal Welsh Showground, Llanelwedd, Powys, LD2 3TU**
August 2021

NFU CYMRU

NFU Cymru TreesAndWoodland Report Welsh AW.indd 8 10/09/2021 17:51